

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Portffolio Celfyddydol Cymru Uchafbwyntiau Arolwg 2018/19

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

Ballet Cymru (llun: Sian Trenberth Photography)

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn darparu cyllid grant refeniw craidd i 67 o sefydliadau celfyddydol, a elwir yn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru. Mae rhestr lawn o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn Atodiad A. Maent yn cynnwys cwmnïau cerddoriaeth, drama a dawns, canolfannau celfyddydau a theatrau, orielau a sefydliadau celfyddydau cymunedol. Mae cwblhau'r arolwg yn un o amodau'r grant ac mae'n ofynnol i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru gyflwyno data ar-lein ddwywaith y flwyddyn; ym mis Tachwedd (i adrodd ar weithgaredd o fis Ebrill i fis Medi) a mis Mehefin (gweithgaredd mis Hydref i fis Mawrth). Mae'r arolwg yn casglu data yn bennaf ar nifer y digwyddiadau celfyddydol a gynhyrchwyd ac a gyflwynwyd ac ymgysylltiad y cyhoedd â'r gweithgareddau hyn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r ffurflenni gweithgaredd gan Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 a, lle y bo'n bosibl, gwnaed cymariaethau â data o'r flwyddyn ariannol flaenorol.



Galeri, Caernarfon

Cyflwynodd sefydliadau
Portffolio Celfyddydol Cymru gyfanswm o

# 23,149

o ddigwyddiadau celfyddydol yn ystod 2018/19.

Cynhyrchodd y rhain

# 4.2 miliwn

o fynychiadau.

Hefyd, cynhaliodd Portffolio Celfyddydol Cymru

# 72,383

o sesiynau celfyddydol ymgyfranogol, gan arwain at

# 1.1 miliwn

o fynychiadau.

Roedd cyfanswm o

# 4,797

o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr o fewn
sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru
yn ystod 2018/19.


Gwnaed cyfanswm o

# 1,151

o ddarllediadau o waith sefydliadau
Portffolio Celfyddydol Cymru yn 2018/19 ac roedd nifer
yr ymweliadau â gwefannau'r sefydliadau hyn dros

# 8.8 miliwn.

Darllediadau a wnaed gan sefydliadau
Portffolio Celfyddydol Cymru yn ystod 2018/19



## Digwyddiadau

Cynyddodd nifer y digwyddiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru (23,149)


**4.6%**


o

**22,132**

yn y flwyddyn flaenorol.

Nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd



Bouchra Khalili, *Twenty-Two Hours* (2018), Artes Mundi 8

# Mynychiadau

Mae mynychiadau i ddigwyddiadau wedi cynyddu

**10.1%**


o dros

**3.8 miliwn**

yn 2017/18 i dros

**4.1 miliwn**

yn 2018/19.




Roedd y lefelau uchaf o fynychiadau ar gyfer arddangosfeydd celf weledol a chrefftau, sef 2,023,047 o fynychiadau. Denodd perfformiadau mewn lleoliadau cyflwyno 989,725 o fynychiadau. Cafwyd 635,928 o fynychiadau i berfformiadau gan gwmnïau teithiol a 543,217 o fynychiadau i sgriniadau ffilm.

Y cynnydd mwyaf mewn mynychiadau oedd i sgriniadau ffilm, cynnydd o 21.7%.

| | Digwyddiadau | | | Mynychiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Arddangosfeydd | 491 | 519 | 5.7 | 1,898,168 | 2,023,047 | 6.6 |
| Perfformiadau mewn Lleoliadau Cyflwyno | 3,747 | 3,813 | 1.8 | 916,318 | 989,725 | 8.0 |
| Perfformiadau gan Gwmnïau Teithiol | 2,932 | 4,145 | 41.4 | 544,744 | 635,928 | 16.7 |
| Sgriniadau Ffilm | 14,962 | 14,672 | -1.9 | 446,533 | 543,217 | 21.7 |
| Cyfansymiau | 22,132 | 23,149 | 4.6 | 3,805,763 | 4,191,197 | 10.1 |

Sylfaen = 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

# Ymgyfranogi

Roedd cyfanswm o

**20,812**

o sesiynau yn cael eu cynnal fel gweithgaredd ymgyfranogi cyffredinol, heb gael eu targedu at blant a phobl ifanc. Cynhyrchodd y sesiynau celfyddydau ymgyfranogol cyffredinol hyn

**316,852**

o fynychiadau.

Roedd

**51,571**

o sesiynau ymgyfranogol wedi'u targedu at blant a phobl ifanc ac arweiniodd y sesiynau ymgyfranogol hyn at

**821,899**

o fynychiadau.



Bu gostyngiad o

**3.6%**

yn nifer y sesiynau ymgyfranogol a gynhaliwyd ers 2017/18. Mae mynychiadau i sesiynau ymgyfranogol hefyd wedi gostwng 1.3%.

O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae nifer y sesiynau ymgyfranogol wedi cynyddu **36.4%** o **37,795** ac mae nifer y mynychiadau i'r sesiynau hyn wedi cynyddu **53.4%**.

| | Sesiynau | | | Mynychiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sesiynau Ymgyfranogol | 2017/18 | 2018/19 | % y newid | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Gweithgareddau Ymgyfranogol Cyffredinol | 21,594 | 20,812 | -3.6 | 321,092 | 316,852 | 1.3 |
| Plant a Phobl Ifanc | 37,795 | 51,571 | 36.4 | 535,839 | 821,899 | 53.4 |
| Cyfanswm yr Ymgyfranogi | 59,389 | 72,383 | 21.9 | 856,931 | 1,138,751 | 32.9 |

Sylfaen = 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

## Teuluoedd


Yn ystod 2018/19, roedd

**12.7%**

(2,939) o'r holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru wedi'u targedu at deuluoedd ac roedd y mynychiadau i'r digwyddiadau hyn yn cyfrif am

**10.4%**

(437,790) o'r holl fynychiadau.



Roedd sesiynau ymgyfranogol wedi'u targedu'n benodol at deuluoedd yn cynnwys

**1.4%**

(1,041) o'r holl sesiynau ymgyfranogol a

**2.9%**

(32,926) o'r holl fynychiadau i'r sesiynau hyn.

## Y Gymraeg

O'r holl ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, cafodd

**1,139**

eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018/19, sy'n cyfateb i

**4.9%**

o'r holl ddigwyddiadau.



Cafwyd

**124,462**

o fynychiadau i'r digwyddiadau hyn, sy'n cynrychioli 3.0% o'r holl fynychiadau.

O ran gweithgarwch ymgyfranogol, cynhaliwyd

**13.8%**

o'r holl sesiynau (10,001) yn Gymraeg. Cafwyd cyfanswm o

**103,260**

o fynychiadau i'r sesiynau hyn, sef 9.1% o'r holl fynychiadau mewn sesiynau ymgyfranogol.

Digwyddiadau a Mynychiadau wedi'i dargedu at Deuluoedd

| | Digwyddiadau | | | Mynychiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Arddangosfeydd | 9 | 14 | 55.6 | 136,504 | 65,876 | -51.7 |
| Sgriniadau ffilm | 1,257 | 2052 | 63.2 | 56,685 | 94,545 | 66.8 |
| Perfformiadau gan gwmnïau teithiol | 847 | 377 | -55.5 | 145,866 | 99,832 | -31.6 |
| Perfformiadau mewn Lleoliadau Cyflwyno | 464 | 496 | 6.9 | 110,081 | 177,537 | 61.3 |
| **Cyfanswm y Digwyddiadau wedi'u Targedu at Deuluoedd** | **2,577** | **2,939** | **14.0** | **449,136** | **437,790** | **-2.5** |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

Sesiynau ymgyfranogol a mynychiadau wedi'u targedu at Deuluoedd

| | Sesiynau | | | Mynychiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Sesiynau ymgyfranogol wedi'u targedu at deuluoedd | 1,580 | 1,041 | -34.1 | 50,696 | 32,926 | -35.1 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

| | Digwyddiadau Cymraeg | | | Mynychiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2018/19 | % y newid | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Sgriniadau ffilm | 36 | 95 | 163.9 | 2,772 | 6,212 | 124.1 |
| Perfformiadau gan gwmnïau teithiol | 530 | 517 | -2.5 | 49,914 | 45,114 | -9.6 |
| Perfformiadau mewn Lleoliadau Cyflwyno | 438 | 527 | 20.3 | 57,352 | 73,136 | 27.5 |
| Cyfansymiau | 1004 | 1,139 | 13.4 | 110,038 | 124,462 | 13.1 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

| | Sesiynau Cymraeg | | | Mynychiadau | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Plant a phobl ifanc | 2,982 | 7,809 | 161.9 | 85,213 | 78,300 | -8.1 |
| Gweithgaredd Ymgyfranogol Cyffredinol | 3,389 | 2,192 | -35.3 | 37,890 | 24,960 | -34.1 |
| Cyfansymiau | 6,371 | 10,001 | 57.0 | 123,103 | 103,260 | -16.1 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

# Hyfforddiant a Chyflogaeth

Roedd


4,797

o bobl wedi'u cyflogi neu'n gwirfoddoli o fewn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru yn 2018/19.

Ac eithrio gwirfoddolwyr, cyflogwyd

3,527

o bobl. Mae hyn yn golygu bod gwirfoddolwyr yn cyfrif am ychydig dros chwarter (**26.5%**) y gweithlu. O'r rhai a oedd yn gweithio yn y sefydliadau hyn, roedd **62** yn hyfforddeion.



Roedd

51.7%

(1,822) o'r rhai mewn cyflogaeth â thâl ar gontract achlysurol, roedd

938

(26.6%) yn gyflogedig yn llawn amser a

454

(12.9%) wedi'u cyflogi'n rhan-amser.

Adroddwyd bod

313

(8.9%) o weithwyr eraill ar gontractau dim oriau.

Roedd cyfanswm o

1,042

o siaradwyr Cymraeg,

175

o bobl o'r grŵp Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a

159

o bobl anabl yn cael eu cyflogi neu'n gwirfoddoli o fewn sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru.



Mae

785

o weithwyr eraill yn 50 oed a throsodd.

| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gweithwyr llawn amser | 978 | 938 | -4.1 |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr rhan amser | 423 | 454 | 7.3 |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr achlysurol/contract | 1,524 | 1,822 | 19.6 |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr ar gontractau dim oriau | 273 | 313 | 14.7 |
| Cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr | 1,379 | 1,270 | -7.9 |
| Cyfanswm nifer y gweithwyr (gan gynnwys gwirfoddolwyr) | 4,577 | 4,797 | 4.8 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr hyfforddeion gwrywaidd | 16 | 23 | 43.8 |
| Cyfanswm nifer yr hyfforddeion benywaidd | 15 | 39 | 160.0 |
| Cyfanswm yr hyfforddeion | 31 | 62 | 100.0 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

| | Sesiynau | | |
|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Saesneg | 4,653 | 3,128 | -32.8 |
| Cymraeg | 428 | 275 | -35.7 |
| Dwyieithog | 54 | 127 | 135.2 |
| Arall | 0 | 2 | - |
| Iaith yn Amherthnasol | 79 | 228 | 188.6 |
| Cyfanswm nifer y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer artistiaid a sefydliadau celfyddydol | 5,214 | 3,760 | -27.9 |


Sylfaen= 47 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

## Byrddau Rheoli / Pwyllgorau Cynghori

Roedd

# 661

o aelodau yn eistedd ar fyrddau rheoli. Roedd mwy o ddynion (339); na merched (322) yn aelodau o fyrddau, ond mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn parhau i leihau.




| Bwrdd Rheoli | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y dynion ar fyrddau rheoli | 348 | 339 | -2.6 |
| Cyfanswm nifer y menywod ar fyrddau rheoli | 314 | 322 | 2.5 |
| Cyfanswm nifer yr aelodau ar fyrddau rheoli | 662 | 661 | -0.2 |

Sylfaen= 47 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19



*Into the Light,* Hijinx (llun: Kirsten McTernan)

## Nodweddion Gwarchodedig

Targedwyd

34.0%

o'r holl ddigwyddiadau at y rhai yn y grwpiau â nodweddion gwarchodedig, sef cynnydd o bron i draean

29.6%

o'r flwyddyn flaenorol.

O'r holl weithgareddau cyfranogol ar draws y portffolio, roedd

13.2%

(9,588) o sesiynau wedi'u targedu at y rhai mewn grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

| | Digwyddiadau wedi'u Targedu at Grwpiau Nodweddion â Gwarchodedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Arddangosfeydd | 22 | 38 | 72.7 |
| Sgriniadau ffilm | 4,601 | 6,629 | 44.1 |
| Perfformiadau gan Gwmnïau teithiol | 846 | 463 | -45.3 |
| Perfformiadau mewn Lleoliadau Cyflwyno | 609 | 747 | 22.7 |
| Cyfanswm a Dargedwyd | 6,078 | 7,877 | 29.6 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

| | Sesiynau wedi'u Targedu mewn Grwpiau Nodweddion Gwarchodedig | | |
|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | % y newid |
| Plant a Phobl Ifanc | 2,032 | 3,100 | 52.6 |
| Gweithgaredd Ymgyfranogol Cyffredinol | 4,748 | 6,488 | 36.6 |
| Cyfanswm a Dargedwyd | 6,780 | 9,588 | 41.4 |

Sylfaen= 67 o sefydliadau yn 2017/18 a 2018/19

# Atodiad A

**Sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru 2018/19**

Canolfan Celfyddydau Aberystwyth
Arad Goch
Gwobr Artes Mundi
Artis Cymuned
Arts Care Gofal Celf
Cyswllt Celf
Ballet Cymru
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
Sefydliad y Glowyr Coed Duon
Canolfan Gerdd William Mathias
Chapter
Cerdd Gymunedol Cymru
Cwmni'r Frân Wen
Dawns i Bawb
Celfyddydau Anabledd Cymru
Ffilm Cymru
Ffotogallery
g39
Galeri Caernarfon
Oriel Gelf Glynn Vivian
Hafren
Celf ar y Blaen
Theatr Hijinx
Jukebox Collective
Llenyddiaeth Cymru
Live Music Now Cymru
Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange
Opera Canolbarth Cymru
Oriel Mission
MOSTYN
Theatr Gerdd Cymru
Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
National Theatre Wales
Dawns NEW
Syrcas Gymunedol NoFit State
Oriel Davies
Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin
Peak - Celf yn y Mynyddoedd Duon Cyf
Canolfan Gelfyddydau Pontardawe
Pontio
Dawns Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Dawns Rubicon
Canolfan Grefft Rhuthun
Theatr Sherman
Sinfonia Cymru
Canolfan Celfyddydau Taliesin
Glan yr Afon
Theatr Bara Caws
Theatr Clwyd
Theatr Felinfach
Theatr Genedlaethol Cymru
Theatr Iolo
Theatr Mwldan
Theatr na n'Óg
Theatr Torch
Trac – Traddodiadau Cerddoriaeth Cymru
Tŷ Cerdd – Canolfan Cerddoriaeth Cymru
Canolfan Ucheldre
Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro
Plant y Cymoedd
Theatr Volcano
Canolfan Mileniwm Cymru
Opera Cenedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Neuadd Les a Chymuned y Glowyr